

Economeg

Amser – 1.5 awr

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr:

a) Atebwch unrhyw ddau gwestiwn

b) Cewch ddefnyddio cyfrifiannell safonol nad oes modd ei rhaglennu.

1. Trafodwch y ffactorau a achosodd argyfwng ariannol 2008 a sut yr effeithiodd yr argyfwng ar economi'r DU. **(50 marc)**

2. Trafodwch yr effeithiau posibl ar economi'r DU os bydd y DU yn gadael yr UE. Cewch gyfeirio at ddiwydiant neu sector rydych yn gwybod rhywfaint amdano i ategu'ch ateb. **(50 marc)**

3. Atebwch bob un o'r cwestiynau isod:
 - a. Esboniwch y gwahaniaeth rhwng mantais gymharol a mantais absoliwt. **(15 marc)**
 - b. Trafodwch fanteision masnach rydd. **(20 marc)**
 - c. Amlinellwch wahanol ddulliau o amddiffyn cynhyrchwyr domestig. **(15 marc)**

4. Atebwch bob un o'r cwestiynau isod:
 - a. Trafodwch wahanol swyddogaethau arian. **(20 marc)**
 - b. Ym mha ffyrdd y gall Banc Lloegr ddylanwadu ar y cyflenwad arian yn economi'r DU? **(30 marc)**

Trosodd

5. Atebwch bob un o'r cwestiynau isod:

a. Diffiniwch nwyddau cyhoeddus. **(25 marc)**

b. Gan ddefnyddio enghraifft o nwydd cyhoeddus, trafodwch pam na all marchnadoedd gynhyrchu'r lefel gymdeithasol-optimaidd o'r nwyddau hyn.

(25 marc)

6. Mae'r tabl isod yn dangos maint y galw am orennau ar wahanol brisiau:

Pris (£ y cilo)	5	4	3	2	1
Maint y galw ('000 cilo)	10	20	30	40	50

a) Nodwch gromlin linol y galw am orennau.

(15 marc)

b) Tybiwch mai cromlin y cyflenwad yn y farchnad ar gyfer orennau yw: $Q = 5P + 30$.

Dewch o hyd i'r pris cytbwys (*equilibrium*) a maint y cyflenwad yn y farchnad.

(15 marc)

c) Trafodwch newidiadau yn y farchnad a all newid cromlin y galw am orennau.

(20 marc)

7. Trafodwch nodweddion marchnad berffaith gystadleuol, monopoli ac oligopoli.

(50 marc)

8. Gan ddefnyddio'r fframwaith Galw Cyfanredol – Cyflenwad Cyfanredol (AD-AS), eglurwch y broses addasu sy'n digwydd dros amser mewn ymateb i gynnydd yn y

Galw Cyfanredol.

(50 marc)